# Cytundeb Cyfarpar ar Fenthyg

**Dyddiad: 17.01.2025**

Mae'r Cytundeb Cyfarpar ar Fenthyg hwn wedi'i wneud rhyngoch chi **("y Cwsmer")** a Spectrum Fibre Limited ("y Cwmni"). Yr un yw ystyr y termau yn y cytundeb hwn â'r termau sydd yn rhannau eraill telerau ac amodau eich Cytundeb Gwasanaeth Ogi.

## 1. Benthyg Cyfarpar gan Ogi

1.1 Mae'r Cwmni'n cytuno i fenthyg i'r Cwsmer y cyfarpar sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau band eang ffeibr. Mae'r term Cyfarpar ar Fenthyg Ogi yn cyfeirio at lwybrydd, atgyfnerthydd neu unrhyw offer arall sydd yn ôl y Cwmni yn berchen i Ogi ac y bydd y Cwmni'n ei roi i'r Cwsmer i'w ddefnyddio yn ystod cyfnod y cytundeb hwn ("Cyfarpar ar Fenthyg Ogi").

1.2 Mae'r Cwsmer yn cydnabod bod Cyfarpar ar Fenthyg Ogi yn dal yn eiddo i'r Cwmni drwy'r adeg ac ni fydd yn hawlio unrhyw hawliau perchnogaeth dros y cyfarpar hwnnw.

## 2. Gofalu am Gyfarpar a Fenthycir gan Ogi a Dychwelyd Cyfarpar ar Fenthyg Ogi

2.1 Mae'r Cwsmer yn cytuno i gymryd gofal rhesymol wrth ddefnyddio Cyfarpar ar Fenthyg Ogi a bydd yn cymryd yr holl ragofalon angenrheidiol i osgoi unrhyw ddifrod neu golled.

2.2 Cyfrifoldeb dros Ddiffygion

Y Cwsmer fydd yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion a achosir gan y canlynol:

a) Camddefnyddio neu esgeuluso Cyfarpar ar Fenthyg Ogi;
b) Difrod damweiniol neu fwriadol i Gyfarpar ar Fenthyg Ogi;
c) Methiant i ddilyn cyfarwyddiadau rhesymol a ddarperir gan y Cwmni;
d) Y defnydd o gyfarpar sy'n eiddo i'r Cwsmer ac sydd heb ei gyflenwi gan y Cwmni;
e) Ymyrryd â Chyfarpar ar Fenthyg Ogi neu ei ddadosod heb ganiatâd y Cwmni;
f) Unrhyw gamau eraill sy'n debygol o achosi difrod i Gyfarpar ar Fenthyg Ogi, oni bai y cymerir y rheini ar gais y Cwmni.

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

## 3. Hysbysiad i Ddychwelyd Cyfarpar ar Fenthyg Ogi

3.1 Gall y Cwsmer neu'r Cwmni ill dau roi hysbysiad unrhyw bryd ar gyfer dychwelyd Cyfarpar ar Fenthyg Ogi.

3.2 Dim ond pan fydd hynny'n rhesymol y bydd y Cwmni'n rhoi hysbysiad o'r fath, a gellir rhoi yr hysbysiad hwnnw yn yr amgylchiadau canlynol:

a) Nid yw Cyfarpar ar Fenthyg Ogi bellach yn gallu derbyn y gwasanaeth; neu
b) Mae'r cwmni'n disodli Cyfarpar ar Fenthyg Ogi â Chyfarpar ar Fenthyg Ogi tebyg sy'n gwneud gwaith tebyg neu well.

## 4. Disodli Cyfarpar ar Fenthyg Ogi sy'n Ddiffygiol

4.1 Mae'r Cwmni'n cytuno i ddisodli unrhyw Gyfarpar ar Fenthyg Ogi sy'n ddiffygiol yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, oni bai:

a) Y pennir bod y diffyg o ganlyniad i weithredoedd neu esgeulustod y Cwmni; neu
b) Bod y Cwmni wedi gofyn i'r Cwsmer ddychwelyd Cyfarpar ar Fenthyg Ogi, a bod y Cwsmer wedi methu â gwneud hynny.

## 5. Yswiriant

5.1 Mae'r Cwmni'n argymell bod y Cwsmer yn trefnu yswiriant i'w warchod rhag unrhyw achosion o ddifrod, colled neu ddwyn Cyfarpar ar Fenthyg Ogi yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn. Nid yw'r Cwmni'n derbyn dim atebolrwydd am unrhyw ddifrod i Gyfarpar ar Fenthyg Ogi fel y nodir yng nghymal 2.2.1 uchod.

## 6. Profion Dyfeisiau Cludadwy

6.1 Er nad yw hynny'n ofyniad cyfreithiol, mae'r Cwmni'n argymell bod y Cwsmer yn cynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy ar Gyfarpar ar Fenthyg Ogi bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio â rheoliadau trydan.

## 7. Analluogi Cyfarpar ar Fenthyg Ogi

7.1 Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i analluogi Cyfarpar ar Fenthyg Ogi ar ddiwedd contract y gwasanaeth neu os bydd y Cwsmer yn mynd yn groes i unrhyw delerau yn y Cytundeb hwn.

7.2 Mae'r Cwmni'n cytuno i roi isafswm o 7 niwrnod o rybudd i'r Cwsmer cyn analluogi Cyfarpar ar Fenthyg Ogi, ac eithrio mewn achosion lle mae angen cymryd camau yn y fan a'r lle i warchod rhwydwaith neu seilwaith y Cwmni.

## 8. Adfeddiannu Cyfarpar ar Fenthyg Ogi

8.1 Os na fydd y Cwsmer yn dychwelyd Cyfarpar ar Fenthyg Ogi yn brydlon ar ôl i gontract y gwasanaeth ddod i ben neu ar ôl i'r Cwmni wneud cais am hynny, mae'r Cwsmer yn cytuno i dalu ffi a bennir gan y Cwmni am beidio â dychwelyd Cyfarpar ar Fenthyg Ogi neu am wneud difrod iddo.

8.2 Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i gymryd camau cyfreithiol i adfeddiannu Cyfarpar ar Fenthyg Ogi, gan gynnwys unrhyw gostau y bydd yn rhaid eu talu yn y broses.

## 9. Cyfyngiadau ar Atebolrwydd

9.1 Ni fydd y Cwmni'n atebol am y canlynol:

a) Y weithred o ofyn am ddychwelyd Cyfarpar ar Fenthyg Ogi;
b) Analluogi Cyfarpar ar Fenthyg Ogi;
c) Cymryd camau cyfreithiol i adfeddiannu Cyfarpar ar Fenthyg Ogi.

9.2 Ni fydd y Cwmni'n atebol am unrhyw oedi neu fethiant i atgyweirio neu ddisodli Cyfarpar ar Fenthyg Ogi sy'n deillio o ddigwyddiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, gan gynnwys force majeure, epidemig, aflonyddwch sifil, terfysgaeth, rhyfel, a gweithgarwch y llywodraeth, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini.

## 10. Cyfyngiadau ar Golled neu Ddifrod

10.1 Ni fydd y Cwmni'n atebol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan y Cwmni neu'i swyddogion, ei weithwyr, neu'i asiantau perthnasol, oni bai:

a) Bod y Cwmni, neu unrhyw weithwyr neu asiantau perthnasol, wedi torri rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddyletswydd gofal at y Cwsmer; a
b) Bod colled neu ddifrod o'r fath wedi'i ragweld gan y naill barti a'r llall pan ymrwymwyd i'r cytundeb gwasanaeth.

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

## 11. Hysbysiadau a rhybuddion

11.1 Pan fydd gofyn i'r Cwmni roi hysbysiad neu rybudd o dan y cytundeb hwn, gall wneud hynny drwy lythyr, e-bost, SMS neu yng nghyfrif ar-lein y Cwsmer. Rhaid i unrhyw hysbysiad neu rybudd a roddir gan y Cwsmer gael ei roi dros y ffôn i 029 2002 0550, neu'n ysgrifenedig i gyfeiriad y Cwmni: Tŷ Ogi, Hodge House, Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY.

11.2 Bydd hysbysiadau neu rybuddion a roddir drwy'r dull penodedig yn cael eu prosesu o fewn 3-5 diwrnod. Ni fydd hysbysiadau neu rybuddion a anfonir yn ysgrifenedig i gyfeiriad y Cwmni a nodir yng Nghymal 11.1 yn cael eu prosesu tan y bydd y Cwmni wedi siarad â'r Cwsmer ac wedi gwirio'i gyfrif.

## 12. Trosglwyddo Hawliau a Rhwymedigaethau

12.1 Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i drosglwyddo ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y cytundeb hwn i unrhyw is-gwmni neu unigolyn, naill ai ar ffurf amrywiad i'r cytundeb hwn neu ar ffurf cytundeb newydd. Ni fydd trosglwyddiad o'r fath yn effeithio'n negyddol ar hawliau'r Cwsmer o dan y cytundeb hwn.

12.2 Bydd unrhyw gytundeb newydd sy'n deillio o'r trosglwyddiad yn dod i rym 31 diwrnod ar ôl i'r Cwmni roi gwybod i'r Cwsmer.

## 13. Y Gyfraith Berthnasol

13.1 Cyfreithiau Cymru a Lloegr sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn a bydd y Cytundeb cael ei ddehongli o dan y cyfreithiau hynny. Bydd unrhyw anghydfodau sy'n deillio o'r Cytundeb hwn neu mewn perthynas â'r Cytundeb hwn yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr yn unig.